

TUDALEN WE GWASANAETH CWNSELA ANNIBYNNOL POBL IFANC SIR DDINBYCH: GWYBODAETH YCHWANEGOL SY'N OFYNNOL GAN GYMDEITHAS CWNSELA A SEICOTHERAPI PRYDAIN ER MWYN BODLONI'R MEINI PRAWF I GYNNAL ACHREDIAD EIN GWASANAETH

Datganiad o'r nodau ac amcanion

1. Diben y gwasanaethau a ddarperir:

- Mae diben y gwasanaeth yn unol ag amcanion Llywodraeth Cymru o ran sefydlu gwasanaethau cwnsela mewn ysgolion:
- Darparu cwnsela hygyrch yn rhywle digon preifat ond hefyd yn ddiogel yng nghylch yr ysgol (ystafelloedd cwnsela priodol)
- Cael ei weld fel rhywbeth heb stigma gan gymuned yr ysgol a bod yn rhan arferol o ddarpariaeth yr ysgol sydd wedi'i integreiddio yng nghymuned yr ysgol
- Rhoi sylw dyledus i'r ddeddfwriaeth a'r canllawiau presennol, a chynnig cyfrinachedd o fewn y terfynau arferol o ran moeseg a diogelu
- Ymateb yn hyblyg i anghenion lleol o ran amrywiaeth (iaith, er enghraifft) ac ymarferoldeb (er enghraifft, darpariaeth yn ystod y gwyliau)
- Gweithio gyda gwasanaethau eraill mewn ffordd golegol, gan sicrhau lefelau priodol o gyfrinachedd
- Cyflogi cwnselwyr sy'n aelodau o gorff proffesiynol ac sydd felly â fframwaith moesegol a threfn gwyno sefydledig (er enghraifft, Fframwaith Moesegol Cymdeithas Cwnsela a Seicotherapi Prydain ar gyfer Arferion Da mewn Cwnsela a Seicotherapi)
- Cyflogi cwnselwyr â rhinweddau personol sy'n golygu eu bod yn rhwydd ymwneud â hwy, yn meddu ar sgiliau gwrando da a bod y math o bobl sy'n medru creu awyrgylch sy'n annog perthnasau diogel lle mae pawb yn ymddiried yn ei gilydd
- Helpu i gefnogi anghenion iechyd y disgyblion a rhai emosiynol a chymdeithasol, gan arwain at ddiwylliant iach yn yr ysgol (yn unol ag 1.2 Lles a 2.2 Gofal, Cymorth ac Arweiniad yn y Fframwaith Arolygu Cyffredin)
- Rhoi cyfle i unigolion ymchwilio i ffyrdd o fyw, eu darganfod a chael eglurhad ohonynt mewn ffordd fwy boddhaol a gwreiddiol
- Cynnig cyfle i bobl ifanc fagu eu hunanymwybyddiaeth, datblygu eu hadnoddau personol a deall eu problemau eu hunain yn well, yn ogystal â datblygu strategaethau ar gyfer ymdopi â newid.

Nodau'r Gwasanaeth:

- Datblygu gwasanaethau cwnsela i blant a phobl ifanc sy'n annibynnol, yn ddiogel, yn hygyrch ac o safon uchel

TUDALEN WE GWASANAETH CWNSELA ANNIBYNNOL POBL IFANC SIR DDINBYCH: GWYBODAETH YCHWANEGOL SY'N OFYNNOL GAN GYMDEITHAS CWNSELA A SEICOTHERAPI PRYDAIN ER MWYN BODLONI'R MEINI PRAWF I GYNNAL ACHREDIAD EIN GWASANAETH

- Dechrau drwy ganolbwyntio ar ehangu'r ddarpariaeth i blant a phobl ifanc o oedran ysgol uwchradd
- Cynnwys disgyblion blwyddyn 6 (blwyddyn olaf yr ysgol gynradd) er mwyn eu cefnogi drwy'r drefn o bontio rhwng addysg gynradd ac uwchradd
- Hwyluso'r drefn hunanatgyfeirio fel y gall cymaint â phosib o blant a phobl ifanc ddefnyddio'r gwasanaeth
- Sicrhau bod y cwnselwyr (y gwasanaeth cwnsela) yn annibynnol ar yr ysgol, ac arddangos y ffaith Bod plant a phobl ifanc yn ffyddiog na chaiff eu problemau eu rhannu ag eraill heb iddynt wybod am hyn a chytuno iddo
- Ni ddylai'r cwnselwyr fod ag unrhyw swyddogaeth ddeuol mewn unrhyw gyd-destun mewn ysgolion

Egwyddorion y Gwasanaeth:

- Gwasanaeth sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac sy'n ceisio ymateb i'r amrywiaeth o faterion a heriau y mae pobl ifanc yn eu hwynebu yn ein cymdeithas
- Gwasanaeth nad yw'n creu stigma, ac sy'n rhan o ethos emosiynol-gefnogol yn yr ysgol
- Gwasanaeth sy'n darparu ar gyfer amrywiaeth o unigolion o ran hil, rhyw, anabledd, diwylliant, cred a chyfeiriadedd rhywiol
- Gwasanaeth sydd hyd ag y mae modd yn galluogi unigolion i ddefnyddio'r iaith o'u dewis, gan gynnwys iaith arwyddion
- Gwasanaeth sy'n cysylltu â pholisiâu ysgolion ar gyfer lles a chanlyniadau dysgu disgyblion (yn unol â 1.2 Lles a 2.2 Gofal, Cefnogaeth ac Arweiniad yn y Fframwaith Arolygu Cyffredin)
- Gwasanaeth sy'n hybu cyfranogiad plant a phobl ifanc wrth ei ddylunio a'i ddarparu, ac sy'n parchu eu hawliau o dan Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn
- Gwasanaeth sy'n canolbwyntio ar les a diogelwch plant a phobl ifanc ac sy'n cyflogi cwnselwyr a fydd yn gweithio mewn partneriaeth ag ysgolion, rhieni, teuluoedd ac asiantaethau sy'n diogelu plant a phobl ifanc
- Gwasanaeth sy'n galluogi plant a phobl ifanc i atgyfeirio'u hunain
- Gwasanaeth sydd angen cydsyniad plant a phobl ifanc pan wneir atgyfeiriad gan yr ysgol neu wasanaeth arall sy'n cefnogi'r unigolyn dan sylw

TUDALEN WE GWASANAETH CWNSELA ANNIBYNNOL POBL IFANC SIR DDINBYCH: GWYBODAETH YCHWANEGOL SY'N OFYNNOL GAN GYMDEITHAS CWNSELA A SEICOTHERAPI PRYDAIN ER MWYN BODLONI'R MEINI PRAWF I GYNNAL ACHREDIAD EIN GWASANAETH

- Gwasanaeth sy'n gyfrinachol wrth weithio o fewn ffiniau diogelu ac amddiffyn plant, ac sy'n annibynnol ar swyddogaeth addysgu'r ysgol, er ei fod yn atebol i'r ysgol neu'r awdurdod lleol o ran y ddarpariaeth gyffredinol i blant a phobl ifanc
- Gwasanaeth sy'n rhoi ffydd i blant a phobl ifanc na chaiff gwybodaeth amdanynt ei rannu heb iddynt wybod am hyn a chytuno iddo, oni bai fod yn rhaid eu diogelu rhag niwed arwyddocaol go iawn neu'r posibilrwydd o hynny
- Gwasanaeth sy'n diwallu anghenion lleol, yn cyflogi staff sy'n gymwys i weithio â phlant a phobl ifanc ac yn mabwysiadu fframwaith o arferion da (er enghraifft, Fframwaith Moesegol)
- Gwasanaeth a gyllidir yn briodol yn y tymor hir
- Gwasanaeth sy'n cael ei fonitro a'i arfarnu'n barhaus.

Amcanion y Gwasanaeth

- Ei gwneud yn dderbyniol ac yn haws i bobl ifanc ofyn am help pan maent yn ofidus, yn bryderus, wedi drysu neu fod ofn arnynt
- Datblygu diffiniadau pendant o gyfrinachedd
- Datblygu gwasanaethau sy'n gyfrinachol ac wedi'u hyrwyddo i bobl ifanc fel un sy'n annibynnol ar strwythurau ffurfiol yr ysgol, hynny yw, y staff addysgu a staff rheoli'r ysgol, a'i bod yn rhwydd mynd atynt
- Gwella mynediad at wasanaethau i blant a phobl ifanc sydd mewn trallod emosiynol
- Codi ymwybyddiaeth a darparu gwybodaeth a chanllawiau arferion da ynglŷn â darparu gwasanaethau cwnsela mewn ysgolion at ddefnydd cwnselwyr, awdurdodau lleol, Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc, gwasanaethau iechyd ac arweinwyr ysgolion, gan gynnwys llywodraethwyr ac arweinwyr lleoliadau addysgol eraill
- Darparu gwybodaeth i blant, pobl ifanc, rhieni a staff ysgolion ynglŷn â natur y gwasanaeth cwnsela ysgolion a'i egwyddorion
- Meithrin partneriaethau a threfniadau cydweithredol rhwng asiantaethau wrth gynllunio a darparu gwasanaethau cwnsela mewn ysgolion
- Ymgorffori diogelu ac amddiffyn plant yn yr holl wasanaethau a ddarparwn wrth gwrsela plant a phobl ifanc mewn ysgolion

**TUDALEN WE GWASANAETH CWNSELA ANNIBYNNOL POBL IFANC SIR DDINBYCH:
GWYBODAETH YCHWANEGOL SY’N OFYNNOL GAN GYMDEITHAS CWNSELA A
SEICOTHERAPI PRYDAIN ER MWYN BODLONI’R MEINI PRAWF I GYNNAL ACHREDIAD
EIN GWASANAETH**

- Bod yn gydnaws â gwasanaethau ar gyfer plant a phobl ifanc, ynghyd â'r cynlluniau, polisiâu a mentrau sy'n gysylltiedig â hwy, er mwyn sicrhau dull cyfannol o fodloni eu hanghenion
- Monitro ac arfarnu mor effeithiol yw'r gwasanaethau cwnsela a ddarperir mewn ysgolion, a sicrhau y cedwir cofnodion digon manwl.

TUDALEN WE GWASANAETH CWNSELA ANNIBYNNOL POBL IFANC SIR DDINBYCH: GWYBODAETH YCHWANEGOL SY'N OFYNNOL GAN GYMDEITHAS CWNSELA A SEICOTHERAPI PRYDAIN ER MWYN BODLONI'R MEINI PRAWF I GYNNAL ACHREDIAD EIN GWASANAETH

2. Y math o gwnsela / seicotherapi a gynigir:

...mae'n bwysig fod gan bob ysgol fynediad at gwnsela fel ymyrraeth lefel isel, a bod y cwnselwyr yn medru atgyfeirio plant a phobl ifanc at wasanaethau arbenigol os credir fod hynny'n briodol...

Ysgrifennydd Cabinet Llywodraeth Cymru dros Addysg
Adroddiad 'Cadernid Meddwl' 15 Chwefror 2018

Mae cwnsela tymor byr ar gyfer unigolion yn ffordd briodol o weithio ar broblemau sy'n digwydd ar y pryd, datblygu dulliau iach o ymdopi, meithrin dealltwriaeth o bethau sy'n achosi'r sefyllfa, ac os oes angen, datblygu cynllun triniaeth tymor hir. Fel arfer mae hyn yn gweithio orau pan rydych chi a'ch cwnselydd yn medru canolbwyntio ar rywbeth penodol wrth weithio gyda'ch gilydd.

Mae'r aelodau o'n fîm cwnsela i gyd yn gwbl gymwys ac wedi'u hachredu, ac yn meddu ar brofiad mewn amrywiaeth o arferion therapiwtig. Bydd nifer y sesiynau a gewch chi'n dibynnu ar ddifrifoldeb eich problemau (chwe sesiwn gan amlaf). 50 munud yw hyd bob sesiwn.

Efallai y bydd yn briodol eich atgyfeirio at wasanaeth therapiwtig allanol os ydi'ch problemau wedi bodoli ers peth amser, os ydynt yn arbennig o enbyd, neu fod arnoch angen gofal arbenigol. Gall ein cwnselwyr eich atgyfeirio at gymorth allanol addas. Unwaith i chi a'ch cwnselydd benderfynu, mae'n bwysig bwrw ymlaen â'r cynllun triniaeth cyn gynted â phosib er mwyn sicrhau'r canlyniadau gorau. Os ydych chi'n cael trafferth â'r cynllun, rhowch wybod i'ch cwnselydd neu'ch therapydd.

Ni chodir tâl am y gwasanaeth.

3. Y fframwaith moesegol i'r gwasanaeth:

Mae *Fframwaith Moesegol* Cymdeithas Cwnsela a Seicotherapi Prydain yn pennu'r hyn a ddisgwylir o ran egwyddorion moesegol, gwerthoedd ac arferion da ymysg aelodau'r Gymdeithas.

Rydym yn aelodau o Gymdeithas Cwnsela a Seicotherapi Prydain ac wedi cofrestru fel Gwasanaeth Achrededig, ac felly rydym yn ymrwymo i'r egwyddorion a'r gwerthoedd a nodir yn y *Fframwaith Moesegol* ac yn cydnabod y gallai ein haelodaeth, ein cofrestriad a'n hachrediad fod mewn perygl pe byddem yn methu â chyflawni ein hymrwymadau.

Y *Fframwaith Moesegol* dan sylw yw'r sail bennaf ar gyfer penderfyniadau mewn gwrandawiriadau ynglŷn ag ymddygiad proffesiynol.

Defnyddio'r Fframwaith Moesegol

Lluniwyd y fframwaith i helpu cwnselwyr i ddarparu sylfaen sicr i gleientiaid ar gyfer eu gwaith gyda'i gilydd. Mae'n arfer dda i integreiddio'r *Fframwaith*

TUDALEN WE GWASANAETH CWNSELA ANNIBYNNOL POBL IFANC SIR DDINBYCH: GWYBODAETH YCHWANEGOL SY'N OFYNNOL GAN GYMDEITHAS CWNSELA A SEICOTHERAPI PRYDAIN ER MWYN BODLONI'R MEINI PRAWF I GYNNAL ACHREDIAD EIN GWASANAETH

Moesegol yn ein gwaith a'i ddefnyddio fel adnodd wrth wynebu unrhyw heriau a materion sy'n codi. Gwell o lawer gwneud hynny cyn bod sefyllfa'n troi'n argyfwng neu fod rhywbeth yn mynd o'i le.

Mae'r fframwaith yn creu trefn gyffredin ar gyfer ein gwaith, ond mae hefyd yn rhoi hyblygrwydd wrth ymateb i anghenion mewn gwahanol gyd-destunau a gyda gwahanol grwpiau cleientiaid. Dyma dair prif ran y fframwaith:

Ein hymrwymiad i gleientiaid

Mae angen i gleientiaid fedru cyfranogi'n llawn wrth weithio gydag ymarferwyr ym maes cwnsela i gyflawni'r nodau a ddymunant. Golyga hynny fod angen i gleientiaid fedru ymddiried yn yr ymarferwyr o ran eu lles a'u gwybodaeth bersonol sensitif. Felly, fel aelodau cofrestredig o Gymdeithas Cwnsela a Seicotherapi Prydain, mae bod yn deilwng o ymddiriedaeth yn un o'n hymrwymadau moesegol pwysicaf. Rydym wedi cytuno y byddwn yn:

Rhoi cleientiaid yn gyntaf drwy:

- a.** sicrhau mai cleientiaid yw ein hystyriaeth bennaf pan fyddwn yn gweithio â hwy
- b.** darparu gwasanaeth o safon briodol i'n cleientiaid.

Gweithio'n unol â safonau proffesiynol drwy:

- a.** weithio yn ôl ein gallu
- b.** cadw ein sgiliau a'n gwybodaeth yn gyfoes
- c.** gweithio â chydweithwyr i wella'r hyn a gynigir i gleientiaid
- ch.** sicrhau bod ein lles yn ddigon da i gynnal ansawdd y gwaith

Dangos parch drwy:

- a.** werthfawrogi pob cleient fel rhywun unigryw
- b.** diogelu preifatrwydd a chyfrinachedd y cleient
- c.** cytuno â chleientiaid ynglŷn â sut fyddwn yn gweithio gyda'n gilydd
- ch.** gweithio mewn partneriaeth â chleientiaid.

TUDALEN WE GWASANAETH CWNSELA ANNIBYNNOL POBL IFANC SIR DDINBYCH: GWYBODAETH YCHWANEGOL SY'N OFYNNOL GAN GYMDEITHAS CWNSELA A SEICOTHERAPI PRYDAIN ER MWYN BODLONI'R MEINI PRAWF I GYNNAL ACHREDIAD EIN GWASANAETH

Meithrin perthynas briodol â chleientiaid drwy:

- a.** fynegi'n bendant yr hyn y mae gan gleientiaid yr hawl i'w ddisgwyl gennym
- b.** mynegi unrhyw fuddion, costau ac ymrwymadau y mae'n rhesymol i'r cleientiaid eu disgwyl
- c.** parchu'r ffiniau rhwng ein gwaith ni gyda'r cleientiaid a'r hyn sy'n digwydd y tu hwnt i'r gwaith hwnnw
- ch.** peidio â chamfanteisio ar gleientiaid na'u cam-drin
- d.** gwranddo i glywed sut brofiad mae ein cleientiaid yn ei gael wrth weithio gyda ni.

Sicrhau gonestrwydd drwy:

- a.** fod yn onest am y gwaith
- b.** mynegi ein cymwysterau, profiad a dulliau gwaith yn iawn
- c.** gweithio'n foesegol gan ystyried yn ofalus sut rydym yn cyflawni ein hymrwymadau cyfreithiol.

Dangos atebolrwydd a didwylledd drwy:

- a.** fod yn fodlon cael drafodaeth onest ac agored gyda'n cleientiaid ynglŷn ag unrhyw risgiau sy'n gysylltiedig â'r gwaith a'r ffyrdd gorau o weithio at y canlyniadau a ddymuna ein cleientiaid, a hynny drwy fynegi unrhyw fuddion, costau ac ymrwymadau y byddai'n rhesymol i'r cleientiaid eu disgwyl
- b.** sicrhau y caiff cleientiaid wybod yn brydlon ynglŷn ag unrhyw beth sydd wedi digwydd sy'n rhoi'r cleient mewn perygl o niwed, neu rwybeth sydd wedi achosi niwed yn ein gwaith, p'un a yw'r cleient yn gwybod amdano neu beidio, a gweithredu'n gyflym er mwyn lliniaru ar unrhyw niwed cyn belled ag y bo modd
- c.** adolygu ein gwaith â chleientiaid mewn sesiynau goruchwyllo
- ch.** monitro profiadau ein cleientiaid o'r gwaith a'r ffordd y mae'r gwaith yn effeithio arnynt.

4. Terfynau cyfrinachedd

Nid oes y fath beth â chyfrinachedd llwyr wrth weithio â phobl ifanc: bydd pryderon o ran amddiffyn plant bob amser yn drech na threfniadau cyfrinachedd arferol.

Bydd y cwnselydd ysgol yn sefydlu contract gyda'r cleient sy'n pennu'r terfynau yng nghyd-destun gwasanaeth cwnsela annibynnol. Ni chynigir unrhyw gyfrinachedd i bobl ifanc os nad oes modd ei gynnal.

Pe byddai cwnselydd o'r farn bod unigolyn ifanc mewn perygl o niwed arwyddocaol, bydd yn hysbysu Swyddog Amddiffyn Plant dynodedig yr ysgol, gan geisio cael caniatâd yr unigolyn ifanc cyn gwneud a rhannu'r wybodaeth berthnasol yn unig.

TUDALEN WE GWASANAETH CWNSELA ANNIBYNNOL POBL IFANC SIR DDINBYCH: GWYBODAETH YCHWANEGOL SY'N OFYNNOL GAN GYMDEITHAS CWNSELA A SEICOTHERAPI PRYDAIN ER MWYN BODLONI'R MEINI PRAWF I GYNNAL ACHREDIAD EIN GWASANAETH

Caiff unrhyw wybodaeth am ysgol yr unigolyn ifanc hefyd ei drin yn gyfrinachol. Bydd gwybodaeth a rennir gyda staff yr ysgol ar sail 'angen gwybod'. Ni fydd cwnselwyr yn trafod manylion unrhyw achos y tu allan i'r gwasanaeth.

Dylid darllen y 'Cytundeb Cyfrinachedd' ochr yn ochr â'r adran hon.

5. Cyd-destun y gwaith a threfniadau contract) gan gynnwys talu am wasanaethau, cysylltiadau â'r ysgol letyol, os yw'n berthnasol, ac amserau darparu'r gwasanaeth, lleoliad).

- Ni chodir tâl ar y cleientiaid na'u rhieni am y gwasanaeth hwn.
- Anogir cleientiaid i hunanatyfeirio a phenderfynu drostynt eu hunain a ddymunant gael cwnsela ai peidio. Er y gellir darparu cwnsela mewn ystafell yn yr ysgol, esbonnir i'r cleientiaid mai gwasanaeth annibynnol yw hwn, a bod gan hynny oblygiadau o ran cyfrinachedd ac ymreolaeth.
- Mae Gwasanaeth Cwnsela Annibynnol Pobl Ifanc Sir Ddinbych yn darparu cwnsela i blant a phobl ifanc yn yr ysgol mewn ystafelloedd priodol, ac o bryd i'w gilydd y tu hwnt i safle'r ysgol mewn mannau addas eraill yn y gymuned. Rydym yn esbonio i gleientiaid a staff yr ysgolion fod ein cwnselwyr (y gwasanaeth cwnsela) yn annibynnol ar yr ysgol; gwneir hyn fel bod y plant a'r bobl ifanc yn ffyddiog na chaiff eu problemau eu rhannu ag eraill heb iddynt wybod am hynny a chytuno iddo.
- Nid gwasanaeth argyfwng mo'r Gwasanaeth Cwnsela, a bydd ar gael fel arfer yn ystod oriau ysgol yn ystod y tymor. Weithiau bydd yn briodol gweld cleientiaid y tu allan i oriau ysgol a/neu dros y gwyliau mewn rhai amgylchiadau penodol.